# Ymchwil Ddiweddaraf Croeso Cymru

## Arolwg Tracio Defnyddwyr Twristiaeth Wythnosol Croeso Cymru Wythnos 13: 10-14 Awst

Mae Croeso Cymru yn gweithio gyda VisitBritain a VisitScotland i ehangu arolwg cyfredol BVA BDRC i ganolbwyntio ar y galw am wyliau yn y tymor canolig

Caiff canfyddiadau ar lefel y DU eu cyhoeddi bob wythnos ar wefan VisitBritain yma. Caiff adroddiadau sy'n canolbwyntio ar Gymru eu cyhoeddi bob 4 wythnos ar wefan Llywodraeth Cymru, ac maent yn cynnwys data ar drigolion Cymru a thrigolion y DU sy'n bwriadu ymweld â Chymru.

**Canfyddiadau trigolion y DU:**

- Gostyngodd cyfran yr oedolion yn y DU a oedd o'r farn bod y gwaethaf i ddod o hyd o 51% i 46% yr wythnos hon. Mae 60% o'r farn na fydd pethau yn 'agos at fod yn normal' tan fis Ebrill '21
- Mae'r hyder mewn mynd ar wyliau domestig yn ddiweddarach yn y flwyddyn (rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr) wedi cynyddu i 41% yn dilyn gostyngiad barn yr wythnos diwethaf, ond mae'n parhau'n is nag wythnos 11 ac wythnosau blaenorol
- Mae 28% naill ai wedi bod ar wyliau domestig eisoes ers dechrau mis Gorffennaf neu maent yn bwriadu gwneud hynny cyn diwedd mis Medi – mae hyn ychydig yn is nag Wythnos 12.
- Nid yw 42% o fwriadwyr yr haf wedi cynllunio eu gwyliau nesaf yn y DU eto, ac nid yw 53% wedi trefnu gwyliau eto. Dim ond 11% o fwriadwyr y gaeaf sydd wedi trefnu eu gwyliau eisoes.
- Cymru yw'r 4ydd cyrchfan mwyaf poblogaidd ymhlith bwriadwyr yr haf, a'r 5ed mwyaf poblogaidd ymhlith bwriadwyr y gaeaf.

## Baromedr Busnes Twristiaeth Croeso Cymru Ton 4: 27 Gorffennaf - 6 Awst

N=801 Busnesau twristiaeth Cymru, arolwg ffôn

**Canfyddiadau allweddol:**

- Ar y cyfan, mae tua thri chwarter (78%) y busnesau ar agor. Mae'r mwyafrif cyfforddus ym mhob sector ar agor, heblaw am atyniadau, lle dim ond ychydig dros hanner (53%) sydd ar agor. Addasu i fesurau COVID-19 yw'r prif reswm pam nad yw llawer o atyniadau ar agor eto.
- Mae tua hanner (51%) y rhai sydd ar agor yn gweithredu i'w llawn gapasiti. Mae'r sector hunan arlwyo yn wahanol iawn i'r sectorau eraill – mae 80% o'r busnesau hunan arlwyo sydd ar agor ar agor yn llawn. Mae 43% o'r llety a wasanaethir sydd ar agor, ar agor yn llawn, ond dim ond chwarter (25%) y busnesau sydd ar agor mewn sectorau eraill sydd ar agor yn llawn.
- Mae 11% o'r busnesau sydd ar agor wedi cael mwy o gwsmeriaid ers ailagor na'r hyn sy'n arferol ar yr adeg hon o'r flwyddyn, ac mae 45% wedi cael yr un lefel. Fodd bynnag, mae 44% wedi cael llai o gwsmeriaid na'r arfer.
- Mae cysylltiad cryf rhwng lefel yr archebion o gymharu â'r hyn sy'n arferol a chapasiti ar agor. Mae 13% o'r busnesau sydd ar agor yn llawn wedi cael mwy o gwsmeriaid na'r arfer, mae 63% wedi cael yr un lefel ac mae 24% wedi cael llai. Mae hyn o gymharu â 9% o fusnesau sydd ar agor yn rhannol sy'n cael mwy o gwsmeriaid na'r arfer, 25% sy'n cael yr un lefel, a 66% sy'n cael llai.
- Mae gan 13% o'r busnesau sydd ar agor neu sy'n bwriadu ailagor fwy o archebion na'r arfer ar gyfer mis Awst a mis Medi, mae gan 46% yr un lefel ac mae gan 41% lai. Mae cysylltiad cryf rhwng hyn a chapasiti ar agor. Ymhlith y rhai sy'n gweithredu i'w llawn gapasiti, mae gan 17% fwy o archebion na'r arfer, mae gan 60% yr un lefel ac mae gan 23% lai.
- Mae 1% o fusnesau wedi dileu swyddi. Ymhlith y sampl o 801 o fusnesau, mae 22 o staff parhaol llawn amser wedi colli eu swyddi hyd yma, ynghyd â 5 aelod o staff parhaol rhan amser.
- Mae gwerth y refeniw a gollwyd yn sgil yr argyfwng yn amrywio'n sylweddol yn ôl maint y busnes, gydag 1% yn colli dros £1m, ar y cyfan, mae'r golled ganolrifol fesul busnes tua phen uchaf £10,000 i £25,000.
- Er bod gwerth £ refeniw a gollwyd hyd yma yn amrywio'n fawr yn ôl maint busnes, nid yw cyfran y refeniw blynyddol arferol y mae'r golled yn ei chynrychioli. Yn achos busnesau o bob maint, y golled ganolrifol a gofnodwyd yn sgil yr argyfwng yw 41 – 50% o'r refeniw arferol am y flwyddyn gyfan. Mae'r darlun hefyd yn weddol gyson ar draws pob sector a rhanbarth.
- Mae ychydig dros hanner (54%) y busnesau wedi cofrestru ar gyfer y safon diwydiant Good to Go. Mae'r gyfran uchaf ymhlith meysydd carafannau a gwersylloedd (65%) ac mae isaf ymhlith bwytai, tafarnau a chaffis (31%). Nid yw'r gwahaniaethau fesul rhanbarth yn sylweddol.
- Dywed 7% o weithredwyr nad ydynt yn disgwyl bod yma mewn chwe mis. Yn yr arolwg blaenorol ddiwedd mis Ebrill roedd y gyfradd yn 33%.

**Cafodd y ddogfen gryno hon ei diweddaru ddiwethaf ar 19-08-2020*

Cymru Wales

# Ymchwil Ddiweddaraf Defnyddwyr

## Llywodraeth Cymru

### Arolwg o farn y cyhoedd ar y coronafeirws

Crynodeb 31 Gorffennaf – 5 Awst, trigolion Cymru

- Mae'r canfyddiadau o fygythiadau'r coronafeirws yn sefydlog yn dilyn peth dirywiad blaenorol. Parheir i ystyried ei fod yn fwy o fygythiad i'r wlad nag i unigolion. Mae llai na hanner o'r farn y bydd rhywun agos yn cael ei heintio.
- Mae mwyafrif mawr yng Nghymru yn parhau i geisio cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr, ond mae llai na hanner bellach ond yn gadael eu cartrefi ar gyfer teithiau hanfodol.
- Mae'r cyhoedd yng Nghymru yn dal i feddwl y bydd pandemig y coronafeirws yn cael effaith ariannol bersonol arnynt. Mae tua chwarter yn poeni na fyddant yn gallu talu eu biliau ymhen mis.

## Yr Adran Drafnidiaeth

### Defnyddio trafnidiaeth yn ystod pandemig y coronafeirws

12 Awst (data Prydain / Lloegr)

- I fonitro'r defnydd o'r system drafnidiaeth yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19), mae'r Adran Drafnidiaeth yn cyhoeddi ystadegau ar y defnydd o drafnidiaeth yn ôl dull bob dydd Mercher.
- Mae'r defnydd o gar ar lefelau tebyg i'r hyn a welwyd cyn y cyfyngiadau symud, mae lefelau beicio yn uwch, mae'r defnydd o drenau a bysiau yn dal i fod yn gyfyngedig.

**Cafodd y ddogfen gryno hon ei diweddaru ddiwethaf ar 19-08-2020*

## Tracio Barn Defnyddwyr ar Effaith COVID-19 Adroddiad Wythnos 20 13 Awst

- Mae'r gyfran sydd wedi bwyta mewn bwyty ers mis Mehefin yn cynyddu'n gyflymach ers dechrau mis Awst, sy'n cyd-daro â lansio cynllun Bwyta Allan i Helpu Allan.
- Gwelwyd cynnydd mewn amseroedd arwain ers diwedd mis Gorffennaf gyda gweithgareddau dan do eraill, yn cynnwys mynd i ganolfannau siopa, y sinema a champfeydd. Yr amser arwain cyfartalog ar gyfer taith i'r sinema yw 4.4 mis bellach, i fyny o 3.4 mis wythnos yn gynharach.
- Mae 88% o'r farn bod ail don a chyfyngiadau symud newydd yn debygol – cynnydd o 85% ddiwedd mis Gorffennaf.
- Mae amseroedd arwain mynd ar wyliau yn y DU yn parhau'n sefydlog, sef tua 4 mis cyn mynd ar wyliau ar gyfartaledd, er bod rhai eisoes wedi bod ar wyliau yr haf hwn. Yr amser cyfartalog cyn cynllunio'r gwyliau nesaf yw 3.1 mis, a'r amser arwain ar gyfer archebu yw 3.4 mis.
- Roedd 13% wedi bod ar wyliau yn y DU yr haf hwn.
- Cynyddoedd amseroedd arwain ar gyfer gwyliau dramor, a'r amser arwain cyfartalog cyn mynd ar wyliau dramor oedd 6.7 mis. Hefyd cynyddodd amseroedd cynllunio (5.3 mis) ac archebu (5.5 mis). Mae'r cynnydd hwn yn cyd-daro â chyhoeddiadau ynghylch gwledydd ychwanegol sy'n destun cwarantin 14 diwrnod ar ôl dychwelyd i'r DU.
- Gostyngodd y cyfrannau a oedd yn bwriadu archebu llety mewn gwesty cyn diwedd mis Medi o 28% ddiwedd mis Gorffennaf i 16% ddechrau mis Awst.
- Cwympodd y bwriad i brynu tocyn hedfan cyn diwedd mis Medi i 8%.

## STR: Twristiaeth a Theithio mewn Byd COVID-19 Newydd (cofrestrwch i ddarllen yr adroddiad llawn)

Grwpiau ffocws ar-lein defnyddwyr ansoddol gydag aelodau o Banel Teithwyr STR yn y DU

- Yn gyffredinol, roedd prif wyliau a gwyliau byrrach ychwanegol yn gyffredin. Dewiswyd llety i ddiwallu anghenion y daith, ac roedd pawb yn defnyddio amrywiaeth o fathau gwahanol ar gyfer gwahanol deithiau.
- Ar hyn o bryd, ffefrir teithiau lleol.
- Mae cryn ansicrwydd, ac mae llawer yn dewis peidio â chynllunio'n rhy bell ymlaen llaw.
- Roedd pryderon am ddeall rheolau a chanllawiau lleol ac a fyddai cymunedau lleol yn croesawu twristiaid.
- Mae'r rhai sydd dan bwysau ariannol yn fwy tebygol o ystyried canslo gwyliau. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod prisiau uchel yn annymunol am resymau fforddiadwyedd a gwerth am arian.
- Mae mwy yn ffafrio llety hunan-arlwyo. Mae llawer hefyd yn dawel eu meddwl gyda brandiau neu gadwyni gwestai adnabyddus, er bod rhai o'r farn bod eiddo annibynnol llai yn cynnig safonau hylendid uwch.
- Credwyd bod rhai mesurau diogelwch yn cael effaith negyddol ar brofiad ymwelwyr. Roedd yr angen cynyddol i gynllunio diwrnodau allan ymlaen llaw yn golygu nad oedd rhai am ymweld ag atyniadau.

Cymru Wales

## Ymchwil Ddiweddaraf Defnyddwyr parhad

### Bwriadau gwyliau

**Arolwg Barn a Ffordd o Fyw Y Swyddfa Ystadegau Gwladol** 5-9 Awst 2020

- Roedd bron 3 o bob 10 (28%) oedolyn yn y DU yn debygol neu'n debygol iawn o aros yn y DU ar eu gwyliau eleni.
- Roedd hyn o gymharu â llai nag 1 o bob 10 (9%) a ddywedodd eu bod yn debygol neu'n debygol iawn o fynd dramor ar eu gwyliau eleni.
- Dywedodd traean o oedolion (33%) yn y DU na allai'r aelwyd fforddio wythnos o wyliau eleni. Dywedodd bron 6 o bob 10 (59%) y gallent fforddio hyn.
- Canslodd 1 o bob 5 oedolyn (20%) eu cynlluniau teithio oherwydd y posibilrwydd o orfod hunanynysu am 14 diwrnod ar ôl teithio dramor.
- Penderfynodd 14% fynd ar wyliau yn y DU yn hytrach na theithio dramor, o ystyried y gofynion hunanynysu 14 diwrnod, a dywedodd 1 o bob 5 (21%) eu bod yn fwy pryderus am deithio dramor, er i 8% ddweud nad oedd hyn wedi effeithio ar eu cynlluniau teithio.
- Dim ond 10% a ddywedodd eu bod yn debygol neu'n debygol iawn o deithio dramor gyda'r posibilrwydd o orfod hunanynysu am 14 diwrnod ar ôl dychwelyd, a dywedodd dros 3 o bob 5 (62%) y byddent yn annhebygol iawn o deithio os felly.
- Dywedodd bron 2 o bob 5 (39%) nad oeddent yn bwriadu teithio.

## Ymchwil Ddiweddaraf y Diwydiant

**Sefydliad Twristiaeth Gweithgareddau Cymru (WATO): Arolwg Baromedr Gweithgareddau Antur Awyr Agored** n = 80

Ymatebodd aelodau WATO i holiadur ar-lein rhwng 29 Gorffennaf a 7 Awst.

- Roedd 60% o'r sefydliadau gweithgareddau antur awyr agored wedi agor erbyn 27 Gorffennaf
- Roedd capasiti rhedeg y busnesau a oedd ar agor yn 45% ar gyfartaledd o gymharu â 2019, gan amrywio o 10% i 100%
- Roedd lefelau staffio ymhlith y busnesau a oedd ar agor yn 57% ar gyfartaledd, unwaith eto, yn amrywio'n eang o 10% i 100%.
- Roedd 10% wedi dileu swyddi neu heb gyflogi staff dros dro yn ôl yr arfer.
- Nododd y rhan fwyaf fod llai o archebion am weddill y flwyddyn o gymharu â 2019.
- Roedd y refeniw y cofnodwyd ei fod wedi'i golli yn amrywio'n fawr, o ychydig filoedd i fasnachwyr unigol, i gannoedd o filoedd ar gyfer canolfannau mawr.
- Roedd traean yn amcangyfrif bod eu siawns o fod yma yn 2021 yn isel (50% neu lai). Roedd dwy ran o bump yn amcangyfrif ei fod yn uchel (90% neu fwy).
- Roedd 62% o fusnesau wedi cael cymorth ariannol, gan gynnwys cynllun ffyrlo'r llywodraeth, y Gronfa Cadernid Economaidd, rhyddhad ardrethi busnes, a benthyciadau adfer

### Digwyddiadau – digwyddiadau byw peilot

**Digwyddiad cerddoriaeth awyr agored:** Sam Fender ym Mharc Gosforth Daeth 2,500 i gyngerdd awyr agored lle dilynwyd y rheolau cadw pellter cymdeithasol

**Sioe theatr y West end:** Beverley Knight at the Palladium Cafwyd cynulleidfa o 640, gan weithredu ar gapasiti o 30 y cant yn y theatr â 2,297 o seddi

**Cafodd y ddogfen gryno hon ei diweddaru ddiwethaf ar 19-08-2020*

# Adnoddau gwybodaeth economaidd

## Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn diweddaru adnoddau data amrywiol yn rheolaidd:

### Crynodeb Coronafeirws (COVID-19) dyddiol

- Crynodeb o ddata ar y coronafeirws a gwaith dadansoddi gan SYG, a gaiff ei ddiweddaru'n ddyddiol, sy'n cynnwys dolenni i bob cyhoeddiad neu ffynhonnell ddata

### Y coronafeirws a'r effeithiau economaidd ar y DU

- Yn seiliedig ar arolwg gwirfoddol newydd bob pythefnos, gan edrych ar effaith COVID-19 ar fusnesau

**Amcangyfrifon Cynnyrch Domestig Gros (CDG) ar gyfer y DU:**

Amcangyfrif misol ar gyfer Mehefin

Amcangyfrif chwarterol Ebrill i Fehefin

### Y coronafeirws a'r dangosyddion diweddaraf ar gyfer economi a chymdeithas y DU

- Data arbrofol sy'n defnyddio amrywiaeth o ffynonellau data i gynhyrchu dangosyddion cyflym

### Y coronafeirws a'r effeithiau cymdeithasol ar Brydain Fawr

- Defnyddir yr Arolwg Barn a Ffordd o Fyw i ddadansoddi effeithiau COVID-19 ar bobl, aelwydydd a chymunedau.

### Manwerthiannau

- Amcangyfrifon o fanwerthiannau, gyda'r symiau a brynwyd a'r symiau a wariwyd ar wahanol gategorïau, ac ar gyfer manwerthu ac ar-lein.

### Chwyddiant prisiau defnyddwyr, y DU

- Mynegeion prisiau ar gyfer mesurau gwahanol chwyddiant prisiau defnyddwyr.

### Trosolwg o'r farchnad lafur

- Amcangyfrifon o gyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch economaidd

"Mae'r dangosyddion cynnar ar gyfer mis Gorffennaf 2020 yn awgrymu bod nifer y cyflogeion yn y DU ar gyflogresi i lawr tua 730,000 o gymharu â Mawrth 2020."

## Adnoddau eraill:

**Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol**: 'Premature' end to furlough to push jobless rate to 10% 28 Gorffennaf 2020

- Rhagolygon economaidd sy'n disgwyl cwymp o 10% mewn CDG y DU yn 2020, ac yna gynnydd o 6% yn 2021, ac ni welir y bydd lefelau CDG 2019 yn dychwelyd tan ddiwedd 2023.

Mae'r **Resolution Foundation** yn cyhoeddi adroddiadau rheolaidd ar effaith y coronafeirws ar economi'r DU

**Cafodd y ddogfen gryno hon ei diweddaru ddiwethaf ar 19-08-2020*

Cymru Wales